

Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dydd Mercher, 26 Tachwedd 2014

11.00 – 16.15

Prifysgol Aberystwyth

Yn bresennol:

Cyfarwyddwyr:

Andrew Green (Cadeirydd)
Beth Button, Cyfarwyddwr yn cynrychioli myfyrwyr
Yr Athro Jerry Hunter, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch
Dr Hefin Jones, Cyfarwyddwr yn cynrychioli staff academiaidd / Deon y Coleg
Dr Gwyn Lewis, Cyfarwyddwr Annibynnol
Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch
Yr Athro Catrin Thomas, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch
Ieuan Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol
Linda Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol (Is-Gadeirydd)

Sylwedyddion:

Jacob Ellis, Swyddog Iaith Gymraeg, UCMC
Dr Cliona O'Neill, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW)

Swyddogion:

Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr, Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Dr Dylan Phillips, Uwch Reolwr Academaidd, Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Catherine Rees, Ysgrifennydd, Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Dr Gwennan Schiavone, Uwch Reolwr Academaidd, Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd, Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Nia Brown, Swyddog Datblygu, Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Ymddiheuriadau:

Yr Athro Iwan Davies, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch
Jacqui Hare, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch
Geraint James, Cyfarwyddwr Annibynnol
Yr Athro Hywel Thomas, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch
Rachel Cable, sylwedydd Prifysgolion Cymru

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau gweithredu	Cyfnod amser
1. Croeso a chyflwyniad	<p>1.1 Estynnwyd croeso i'r aelodau ac yn arbennig i Dr Gwyn Lewis fel Cyfarwyddwr Annibynnol ac i Beth Button fel Cyfarwyddwr yn cynrychioli myfyrwyr, i'w cyfarfod cyntaf. Estynnwyd croeso nôl i Dr Gwennan Schiavone, Uwch Reolwr Academaidd y Coleg, yn dilyn ei chyfnod mamolaeth.</p> <p>1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau i'w cynnwys yn y cofnodion. Nododd y Cadeirydd bwysigrwydd presenoldeb yr aelodau er mwyn sicrhau cworwm yn y cyfarfodydd. Cytunwyd i ail-ddosbarthu dyddiadau'r cyfarfodydd gan bwysleisio pwysigrwydd presenoldeb a chworwm.</p> <p>1.3 Cafwyd cyflwyniadau gan Dr Mari Elin Jones, Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg, Dr Anwen Jones, Cadeirydd Cangen y Coleg a Dr Tamsin Davies, Swyddog Cangen y Coleg ym Mhrifysgol Aberystwyth. Yn deillio o'r cyflwyniadau cafwyd trafodaeth ar lwyddiant cofrestru diofyn ym Mhrifysgol Aberystwyth. Diolchwyd iddynt am eu cyflwyniadau.</p>	<p>Ysgrifennydd i ail-ddosbarthu'r dyddiadau</p>	<p>Cyn diwedd 2014</p>
2. Datganiadau o ddiddordeb	<p>2.1 Atgoffwyd yr aelodau o'r drefn lle gofynnir i aelodau nodi ar y daflen arwyddo presenoldeb unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau.</p> <p>2.2 Nid oedd unrhyw ddatganiadau heblaw'r rhai sydd eisoes wedi eu cofnodi.</p>		
3. Derbyn ac ystyried cofnodion cyfarfod	<p>3.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2014.</p>		

18 Mehefin 2014			
4. Gohebiaeth	4.1 Nid oedd unrhyw ohebiaeth ar gyfer y Bwrdd Cyfarwyddwyr.		
5. Cadarnhau penodiad Cyfarwyddwyr	5.1 <u>Trafodaeth Gaeëdig</u> Ar gyfer yr eitem hon gadawodd Beth Button a Dr Gwyn Lewis yr ystafell. Ystyriwyd a derbyniwyd argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau i benodi Dr Gwyn Lewis fel Cyfarwyddwr Annibynnol ar gyfer tymor o dair blynedd tan 31 Gorffennaf 2017 a phenodi Beth Button fel Cyfarwyddwr yn cynrychioli myfyrwyr ar gyfer tymor o dair blynedd tan 5 Hydref 2017. Ar y pwynt hwn dychwelodd Beth Button a Dr Gwyn Lewis i'r cyfarfod.		
6. Materion Cyfansoddiadol	<p>6.1 Cafwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr ar rai newidiadau yn nyletswyddau uwch reolwyr y Coleg yn dilyn dychweliad Dr Gwennan Schiavone o'i chyfnod mamolaeth. Bydd Dr Schiavone yn canolbwyntio ar ei dyletswyddau fel Uwch Reolwr Academaidd o hyn ymlaen a Catherine Rees yn parhau fel Ysgrifennydd y Coleg.</p> <p>6.2 Cafwyd adroddiad gan yr Ysgrifennydd ar drefniadau penodi / ail-benodi Cyfarwyddwyr ar gyfer y cyfnod 2014 hyd 2017. Bydd cyfnodau'r Athro Iwan Davies, Jacqui Hare ac Ieuan Wyn yn dod i ben fis Mawrth 2015. Gofynnwyd i'r prifysgolion, drwy Brifysgolion Cymru, i gyflwyno dau enwebiad ac enwebwyd yr Athro Iwan Davies a Jacqui Hare am gyfnod pellach. Fe'u gwahoddir am gyfweiliad cyn ail-benodi. Bydd y Coleg yn hysbysebu am Gyfarwyddwr Annibynnol a bydd Ieuan Wyn yn gymwys i ymgeisio am dymor pellach.</p> <p>6.3 Cyflwynwyd y trefniadau ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol (Llys a'r Cynulliad Blynyddol). Fe'u cynhelir ar 3 Mawrth 2015 ym Mhrifysgol Bangor. Bydd yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas yn</p>	Hysbyseb Cyfarwyddwr Annibynnol	Ionawr 2015

	annerch y Llys am 3.30 yp a chynhelir y Cynulliad yn Neuadd Powys am 6.00 yr hwyr. Yn dilyn argymhelliad y Pwyllgor Anrhydeddau gwahoddir Cymrodyr y Coleg i gyfarfod anffurfiol yn ystod y prynhawn ac i fynychu cyfarfod y Llys.		
7. Enwebiadau – Cymrodyr 2015 CYFRINACHOL	<p>7.1 Derbyniwyd diweddariad gan y Prif Weithredwr ar gyfarfod cyntaf y Pwyllgor Anrhydeddau a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2014. Cytunwyd ar broses i ddewis tri enw i'w cymeradwyo gan y Cyfarwyddwyr.</p> <p>7.2 Cymeradwywyd gwahodd Heini Gruffudd, Catrin Stevens a'r Athro Gwyn Thomas i dderbyn Cymrodoriaeth adeg y Cynulliad Blynyddol ym Mangor ar 3 Mawrth 2015. Pwysleisiwyd bod yr enwau'n parhau'n gyfrinachol nes y cyhoeddiad swyddogol.</p>	Gwahoddiadau i'r darpar-Gymrodyr	Cyn diwedd Tachwedd 2014
8. Gweithgor y Cyfansoddiad (BC/14/03/08)	<p>8.1 Cafwyd cyflwyniad gan yr Ysgrifennydd ar adroddiad y Gweithgor i adolygu cyfansoddiad y Coleg a gynhaliwyd ar 6 Hydref 2014. Ar ôl trafodaeth cymeradwywyd yr argymhellion canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cytunwyd nad yw'n amserol i adolygu'r cyfansoddiad yn sylfaenol ar hyn o bryd ond yn hytrach i wneud rai newidiadau llai yn ôl yr angen (e.e. mewn ymateb i newid yn y cyd-destun allanol y mae'r Coleg yn gweithredu ynddo). • Cytunwyd bod angen derbyn cyngor cyfreithiol er mwyn sicrhau eglurder llawn ar rai o gymalau'r Cyfansoddiad mewn perthynas â'r Llys • Cytunwyd i argymhell i'r Llys y dylid newid hyd tymor gwasanaeth y Cyfarwyddwyr (heblaw am y Cadeirydd) o dair i bedair blynedd. Cytunwyd hefyd i argymhell y gallai cyfarwyddwyr sector addysg uwch gael eu henwebu am fwy na dau dymor, er mai dau dymor fyddai hyd gwasanaeth fel arfer. Cyn cyflwyno argymhellion i'r Llys cytunwyd y dylid derbyn cyngor er mwyn sicrhau fod y newidiadau arfaethedig yn gyson ag egwyddorion llywodraethiant da. Cytunwyd i gylchredeg y 	Cylchredeg geiriad i'r Cyfarwyddwyr am eu sylwadau cyn cyflwyno i'r Llys	Erbyn diwedd Ionawr

	<p>geiriad i'r Cyfarwyddwyr ar gyfer eu sylwadau cyn cyflwyno i'r Llys</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cytunwyd bod hawl gan Gyfarwyddwyr sector addysg uwch y Coleg ymddwyn fel cynrychiolwyr eu sefydliadau yng nghyfarfod y Llys • Cytunwyd i derfynu aelodaeth ADEW fel aelod rhanddeiliadol ac i wahodd y Mudiad Ysgolion Meithrin i gymryd y lle. • Cytunwyd i ychwanegu Beth Button at aelodaeth Gweithgor y Cyfansoddiad • Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn penderfynu a fyddai'n galw cyfarfod pellach o'r Gweithgor ar hyn o bryd. 	<p>Gohebu</p> <p>Gohebu</p>	<p>Cyn diwedd 2014</p> <p>Cyn diwedd 2014</p>
<p>9. Adroddiad y Prif Weithredwr</p> <p>(BC/14/03/09)</p>	<p>9.1 Derbyniwyd adroddiad llafar gan y Prif Weithredwr ar y cyfarfodydd cynllunio canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • <u>Adolygiad Diamond</u>. Adroddwyd bod y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr wedi rhoi cyflwyniad i Banel Adolygiad Diamond ar 10 Hydref 2014 ac wedi cynnal cyfarfod dilynol gyda'r Athro Syr Ian Diamond ar 20 Hydref 2014. Nodwyd bod y trafodaethau wedi bod yn adeiladol a bod cyfle i sefydlu nifer o egwyddorion mewn perthynas ag addysg uwch cyfrwng Cymraeg a threfniadau cyllido yn y dyfodol. Cytunwyd i gylchredeg tystiolaeth ffurfiol y Coleg i aelodau'r Bwrdd trwy ohebiaeth cyn ei gyflwyno ym mis Chwefror. • <u>Prifysgolion Cymru (AUC /HEW gynt)</u>. Adroddwyd ar gyfarfod gyda'r Athro Colin Riordan ac Amanda Wilkinson ar 21 Hydref 2014. Nodwyd bod deialog barhaus yn cael ei chynnal gyda Phrifysgolion Cymru mewn perthynas â threfniadau cyllido yn y dyfodol. • <u>Seminar Gregynog</u>. Adroddodd y Cadeirydd ar y seminar a gynhaliwyd yng Ngregynog ar gyfer aelodau'r Bwrdd. Trafodwyd y Gwerthusiad o'r Coleg, adolygiad Diamond, 	<p>Cylchredeg y dystiolaeth ffurfiol i aelodau'r Bwrdd</p>	<p>Chwefror 2015</p>

<p>Atodiad 9/1</p>	<p>cynllun staffio academiaidd a thargedau myfyrwyr 2015/16 yn y seminar ar 21 a 22 Hydref 2014.</p> <ul style="list-style-type: none"> • <u>Cyngor Cyllido.</u> Cyfeiriwyd at drafodaethau parhaus gyda CCAUC ynghylch trefniadau cyllido'n gyffredinol. Nodwyd bod newidiadau pell gyrhaeddol wedi bod yn y sector ers sefydlu'r Coleg. • <u>Cyfarfodydd eraill.</u> Adroddwyd y bu nifer o gyfarfodydd rhwng swyddogion y Coleg a chynrychiolwyr o'r gwahanol bleidiau gwleidyddol. <p>9.2 Derbyniwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr ar y materion canlynol:</p> <p>9.2.1 <u>Gwerthusiad o'r Coleg gan Oldbell.</u> Nodwyd y derbyniwyd adroddiad terfynol y gwerthusiad ar ddiwedd Medi 2014 ac fe'i trafodwyd mewn seminar ar gyfer y Cyfarwyddwyr yng Ngregynog ar 21 a 22 Hydref 2014. Cafwyd trafodaeth ar ymateb y Coleg i'r argymhellion a chymeradwywyd fersiwn terfynol o'r ddogfen. Nodwyd bod yr adroddiad, yn gyffredinol, yn gadarnhaol iawn, ac yn adlewyrchiad o'r cynnydd sydd wedi bod ers sefydlu'r Coleg. Cytunwyd y byddai'r swyddogion yn cyflwyno diweddariad ar ymateb y Coleg i'r argymhellion yng nghyfarfodydd y Bwrdd ym Mawrth a Mehefin 2015. Nodwyd y byddai'r Cyngor Cyllido yn cyhoeddi'r Gwerthusiad erbyn diwedd Ionawr 2015. Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am eu gwaith.</p>	<p>Cyflwyno diweddariad</p>	<p>4 Mawrth / 17 Mehefin 2015</p>
<p>Atodiad 9/2</p>	<p>9.2.2 <u>Adolygiad pum mlynedd o Gwerddon.</u> Cynhaliwyd adolygiad o Gwerddon ar 16 Hydref 2014 a nodwyd y papurau a ddarparwyd ar gyflawniadau a dyfodol Gwerddon gan y Cadeirydd newydd Dr Anwen Jones. Cymeradwywyd yr argymhelliad y byddai'r Coleg, yn amodol ar gyllid, yn parhau i gyllido Gwerddon am y pum mlynedd nesaf, sef hyd at ddiwedd blwyddyn academiaidd 2018/19.</p>		

<p>Cylchlythyr 13/14 ac Atodiad 9/3</p>	<p>9.2.3 <u>Cofrestru myfyrwyr ar fodiwlau cyfrwng Cymraeg.</u> Cyhoeddwyd cylchlythyr gan y Coleg fis Mehefin 2014 ar drefniadau cofrestru myfyrwyr yn ddiodyn ar fodiwlau Cymraeg/dwyieithog. Nodwyd ymatebion y sefydliadau a chafwyd diweddariad ar y sefyllfa gyfredol gan y Cofrestrydd. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i gadw'r pwysau ar brifysgolion i sefydlu a chynnal trefniadau addas ar gyfer cofrestru myfyrwyr gan gofio profiad y myfyriwr a lledu arfer da.</p>	<p>Cadw'r pwysau ar sefydliadau o ran cofrestru myfyrwyr</p>	<p>Parhaus</p>
<p>Cylchlythyr 14/01 ac Atodiad 9/4</p>	<p>9.2.4 <u>Targedau myfyrwyr 2015/16.</u> Cyhoeddwyd cylchlythyr gan y Coleg ar dargedau niferoedd myfyrwyr yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, i'w cyrraedd erbyn blwyddyn academiaidd 2015/16, ym mis Medi 2014. Nodwyd ymatebion y sefydliadau a chafwyd cyflwyniad ar y sefyllfa gyfredol gan y Cofrestrydd. Nodwyd yr ymddengys bod patrymau tueddiadau presennol yn cwrdd â'r targedau ond bod sawl elfen o'r sefyllfa yn cynnig heriau sylweddol. O'r ystadegau ar gyfer 2013/14 gellid gweld bod y buddsoddiad yn dwyn ffrwyth. Cyfeiriwyd at brosiectau dilyniant sydd i'w cefnogi gan y Coleg mewn tair ardal er mwyn dylanwadu ar ffactorau sydd yn effeithio ar benderfyniadau myfyrwyr o oedran iau mewn perthynas â'r Gymraeg. Yn dilyn trafodaeth cymeradwywyd y model a gynigiwyd ar gyfer cyrraedd targedau 2015/16.</p>		
<p>Atodiad 9/5</p>	<p>9.2.5 <u>Cynllun Gweithredu'r Coleg 2014/15.</u> Cafwyd diweddariad ar y cynllun ar gyfer 2014/15 a thrafodaeth fer.</p> <p>9.3 Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig gan y Prif Weithredwr a diweddariadau ar faterion perthnasol yn codi o gyfarfod y Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 18 Mehefin 2014:</p> <ul style="list-style-type: none"> • <u>Cynllun Strategol.</u> Yn dilyn cyflwyno'r Cynllun Strategol terfynol i CCAUC ar 31 Gorffennaf 2014 adroddwyd bod y cynllun terfynol wedi ei chyhoeddi ar wefan y Coleg. • <u>Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon.</u> Adroddwyd bod y gwaith 		

	<p>o baratoi Tystysgrif Cymhwysedd i Athrawon yn mynd rhagddo. Holwyd am berthnasedd y dystysgrif i'r sector addysg bellach ond nodwyd nad oedd hynny'n rhan o'r dasg a nodwyd gan y Llywodraeth yn eu llythyr gorchwyl i'r Cyngor Cyllido ar gyfer 2014/15.</p> <ul style="list-style-type: none"> • <u>Partneriaeth rhwng y Coleg a'r sector addysg bellach.</u> Adroddwyd bod nifer o gyfleoedd i gydweithio wrth hyrwyddo dilyniant rhwng y ddwy sector wedi deillio o gyfarfod ar 8 Hydref 2014. Mae'r Coleg a Cholegau Cymru wedi cytuno i gryfhau'r bartneriaeth mewn perthynas â chyflawni amcanion Strategaeth addysg Gymraeg y Llywodraeth ac wedi anfon llythyr at y Gweinidog Addysg yn amlinellu'r bwriad i sefydlu grŵp strategol mewn perthynas â hyn. <p>9.4 Datblygiadau cyfredol eraill:</p> <ul style="list-style-type: none"> • <u>Materion Staffio.</u> Adroddwyd bod Dr Gwennan Schiavone, Uwch Reolwr Academaidd, wedi dychwelyd o gyfnod mamolaeth a bod un aelod o staff ar gyfnod mamolaeth ar hyn o bryd. Adroddwyd yn ogystal bod Marc Haynes (Cydllynydd Wicipedia - swydd a gyllidwyd gan gyllid allanol) wedi gadael y Coleg ym mis Medi. • <u>Cynhadledd Ryngwladol y Coleg.</u> Nodwyd y bu'r Gynhadledd a gynhaliwyd ar 1-3 Gorffennaf 2014 yn llwyddiannus iawn ac y bydd adolygiad llawn yn ymddangos yn yr Adroddiad Blynyddol. • <u>Ymchwiliad Safonau.</u> Cyfeiriwyd at ymgynghoriad safonau sefydliadau addysg uwch Comisiynydd y Gymraeg. Yn dilyn trafodaeth cymeradwydd y Bwrdd i awdurdodi'r swyddogion i gyflwyno ymateb i'r Ymchwiliad Safonau ar ran y Coleg. <p>9.5 Risgiau a chyfleoedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodwyd bod y Gofrestr Risg yn eitem benodol (15) ar yr agenda. Bydd y Cyfarwyddwyr yn derbyn y Gofrestr lawn yng 	Ymateb i'r ymgynghoriad	Erbyn y dyddiad cau
--	---	-------------------------	---------------------

	<p>nghyfarfod fis Tachwedd o hyn ymlaen ac yn derbyn yr adroddiad arferol yn y cyfarfodydd eraill.</p> <p>9.6 Adroddiadau ar weithgareddau (Mehefin - Tachwedd 2014):</p> <ul style="list-style-type: none"> Derbyniwyd rhestr, er gwybodaeth, o weithgareddau a chyfarfodydd a fynychwyd gan y Prif Weithredwr yn ystod y cyfnod 4 Mehefin – 21 Tachwedd 2014. 		
10. Adroddiadau gan Gyfarwyddwyr	10.1 Cafwyd adroddiad llafar gan yr Athro Jerry Hunter ar gyfarfod y Pwyllgor Ymchwil a Chyhoeddi a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd 2014. Cyflwynir Strategaeth Ymchwil a Chyhoeddi'r Coleg i gyfarfod o'r Bwrdd yn 2015.		
11. Pwyllgor Penodiadau	<p>11.1 Cafwyd adroddiad llafar ar gyfarfod o'r Pwyllgor Penodiadau gan yr Ysgrifennydd. Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2014.</p> <p>11.2 <u>Trafodaeth Gaeëdig</u> Ar gyfer yr eitem hon gadawodd Andrew Green (Cadeirydd) yr ystafell. Linda Wyn (Is-Gadeirydd) cadeiriodd y rhan hon o'r cyfarfod. Ystyriwyd a derbyniwyd argymhellion y Pwyllgor Penodiadau ar drefniadau arfarnu perfformiad y Cadeirydd. Ar y pwynt hwn dychwelodd Andrew Green i'r cyfarfod.</p>		
12. Pwyllgor Staffio CYFRINACHOL	<p>12.1 Cafwyd adroddiad llafar ar faterion y Pwyllgor Staffio gan yr Ysgrifennydd.</p> <p>12.2 Derbyniwyd cofnodion y Pwyllgor Staffio a gynhaliwyd ar 29 Medi 2014.</p> <p>12.3 Trafodwyd a derbyniwyd y cylch gorchwyl.</p> <p>12.4 Trafodwyd a derbyniwyd y polisi recriwtio a pholisi diswyddo</p>	Cywiro'r polisi recriwtio	Ar unwaith

	gydag un cywiriad.		
13. Materion Cyllid (BC/14/03/13)	<p>13.1 Cafwyd cyflwyniad gan y Cofrestrydd ar Gyfrifon Archwiliedig y Coleg ar gyfer 2013/14.</p> <p>13.2 Yn sgil trafodaeth ar y cyfrifon cyfeiriwyd at yr angen i sicrhau bod gwybodaeth am weithgareddau'r Coleg yn parhau i gael eu cyhoeddi'n gyson. Nodwyd bod hyn yn rhan o'r strategaeth gyfathrebu ac y byddai manylion llawn yn ymddangos yn yr Adroddiad Blynyddol.</p> <p>13.3 Cymeradwywyd y cyfrifon gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr a chytunwyd i'w cyflwyno i gyfarfod Llys y Coleg ar 3 Mawrth 2015.</p>		
14. Pwyllgor Archwilio (BC/14/03/14)	<p>14.1 Derbyniwyd cofnodion y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2014.</p> <p>14.2 Yn absenoldeb y Cadeirydd, derbyniwyd adroddiad llafar gan yr Athro Catrin Thomas ar y cyfarfod a gynhaliwyd y prynhawn cynt (25 Tachwedd). Adroddwyd ar y materion canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Derbyniwyd cyfrifon archwiliedig 2013/14 yn dilyn archwiliad allanol glân • Derbyniwyd adroddiad blynyddol yr archwilwyr mewnol • Derbyniwyd cynllun gwaith yr archwilwyr mewnol yn dilyn trafodaeth ar y gyfran amser y dylid treulio yn archwilio'r systemau marchnata • Trafodwyd y Gofrestr Risg gan gyfeirio at risgiau gweithredol ac isel yn benodol • Nodwyd ymddiswyddiad Mererid Jones fel aelod cyfetholedig a diolchwyd iddi am ei gwaith. 		
15. Y Gofrestr Risg	15.1 Cyflwynwyd adroddiad llafar ar y Gofrestr Risg lawn gan y		

<p>(BC/14/03/15)</p>	<p>Cofrestrydd. Nodwyd y cyflwynir y Gofrestr lawn i'r Bwrdd yn flynyddol er fe'i hadolygir yn rheolaidd. Nodwyd mai'r risgiau uchaf yw cyllido'r Coleg a diffyg sicrwydd am gynladwyedd swyddi academaidd i'r dyfodol.</p> <p>15.2 Yn dilyn trafodaeth ar y risgiau cyfredol nodwyd cynnwys y Gofrestr yn ffurfiol.</p>		
<p>16. Bwrdd Academaidd</p>	<p>16.1 Cafwyd adroddiad llafar gan y Deon, Dr Hefin Jones, ar gyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2014.</p> <p>16.2 Adroddodd y Deon ei fod wedi dechrau ar ei ymweliadau blynyddol â'r sefydliadau a hynny ym Mhrifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant.</p> <p>16.3 Cafwyd diweddariad ar y sefyllfa mewn perthynas â llunio cynlluniau pynciol. Nodwyd bod y mwyafrif o'r cynlluniau pynciol wedi eu cwblhau ac y byddai'r broses o adolygu'r cynlluniau pynciol yn dechrau yn 2015.</p> <p>16.4 Nodwyd bod y prosiect cenedlaethol ym maes Astudiaethau Cyfieithu wedi ei leoli ym Mhrifysgol Aberystwyth. Cytunwyd amserlen ar gyfer dilysu darpariaeth newydd, o dan nawdd y Coleg, i'w chynnig o Fedi 2015 ymlaen.</p> <p>16.5 Adroddwyd ar adolygiad diweddar o strategaeth a gweithgareddau'r Coleg ym maes Ieithoedd Modern Ewropeaidd. Cyflwynir argymhellion i'r Bwrdd Academaidd ym mis Chwefror.</p> <p>16.6 Nodwyd bod y Coleg wedi gwahodd ceisiadau ar gyfer swyddi academaidd drwy'r Cynllun Staffio, grantiau bach ac ysgoloriaethau ymchwil.</p> <p>16.7 Nodwyd y derbyniwyd adroddiad cyntaf y Pwyllgor Ehangu Mynediad gan y Cadeirydd, Delyth Murphy.</p>		

	<p>16.8 Nodwyd y trafodwyd materion gweinyddu'r Dystysgrif Sgiliau Iaith a'r Dystysgrif Cymhwysedd i Athrawon.</p> <p>16.9 Derbyniwyd adroddiad Dr Elin Walker Jones ar bynciau'n gysylltiedig ag Iechyd.</p> <p>16.10 Adroddwyd y byddai cyfarfod nesaf y Bwrdd Academaidd yn trafod diffinio swyddi cenedlaethol o dan nawdd y Coleg.</p> <p>16.11 Diolchwyd i'r Deon am ei waith a'r adroddiad cynhwysfawr.</p>		
17. Materion yn codi	17.1 Nid oedd materion yn codi.		
18. UFA	<p>18.1 Cafwyd adroddiad llafar ar weithgareddau'r myfyrwyr gan Jacob Ellis, Swyddog Iaith Gymraeg, UCMC. Nodwyd bod Cyngor Swyddogion Iaith yn bodoli; bod Siarter Iaith Gymraeg wedi'i dderbyn yn Aberystwyth, Abertawe a Chaerdydd; a gwnaed cais i ymgorffori Cyngor y Myfyrwyr â'r Coleg. Argymhellwyd paratoi papur i'r cyfarfod nesaf.</p> <p>18.2 Cyfeiriodd Dr Hefin Jones at y mater o sicrhau bod sefydliadau a darlithwyr a noddir gan y Coleg yn cydnabod y Coleg yn briodol wrth dderbyn sylw yn y wasg a'r cyfryngau. Argymhellwyd cylchredeg canllawiau marchnata'r Coleg i'r sefydliadau a darlithwyr a noddir gan y Coleg eto.</p> <p>18.3 Cafwyd adroddiad llafar gan Dr Dylan Phillips, Uwch Reolwr Academaidd, ar y trefniadau ar gyfer dyfarnu swyddi o'r Cynllun Staffio Academaidd. Adroddwyd y byddai'r panel yn cwrdd ar 3 Rhagfyr 2014 i ystyried y 25 cais. Gofynnwyd i'r Bwrdd am unrhyw sylwadau i'w cyflwyno i sylw'r Panel Grantiau. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i bwysleisio pwysigrwydd targedau, ac argymhellwyd, yn gyffredinol y dylid blaenoriaethu meysydd oedd yn cynnig tystiolaeth gadarn o alw potensial yn hytrach na</p>	<p>JE i baratoi papur i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr</p> <p>Cylchredeg canllawiau marchnata'r Coleg</p>	<p>4 Mawrth 2015</p> <p>Ionawr 2015</p>

	<p>mentro i dorri tir newydd mewn meysydd arbrofol.</p> <p>18.4 Adroddodd yr Ysgrifennydd y bydd y Coleg yn derbyn asesiad Buddsoddwyr mewn Pobl fis Ionawr 2015.</p> <p>18.5 Adroddodd y Prif Weithredwr bod gohebiaeth wedi dod i law gan Brifysgol De Cymru mewn perthynas â darpariaeth y bwriedir ei chynnig mewn lleoliad yng Nghaerdydd gan Brifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant. Nodwyd bod y Coleg wedi annog y ddau sefydliad i archwilio cyfleoedd i gydweithio.</p> <p>18.6 Cynigiwyd y dylid gosod eitem ynghylch sefydlu Cymdeithas Graddedigion y Coleg ar agenda'r cyfarfod nesaf.</p>		
<p>19. Dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd nesaf</p>	<p>19.1 Cynhelir cyfarfodydd nesaf y Bwrdd Cyfarwyddwyr ar gyfer 2014/15 fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 4 Mawrth 2015, Bangor • 17 Mehefin 2015, Abertawe <p>19.2 Diolchwyd i'r cyfieithwyr ar y pryd am eu gwaith ac i staff Prifysgol Aberystwyth am eu cymorth am drefnu a lletya'r cyfarfod.</p>		